# SGILIAU A MENTORA
## Rhagfyr 2018 – Mawrth 2019

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

### Statws RAG

**■ Coch: Tu ôl i'r targed ■ Melyn: Bron â chyflawni'r targed ■ Gwyrdd: Ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed**

### Hyfforddiant ■

Mae'r nifer o geisiadau a dderbyniwyd a chymeradwywyd yn ystod Ffenestr 11 wedi disgyn rhywfaint o gymharu â Ffenestr 10. Gweler dadansoddiad o'r nifer o geisiadau a gymeradwywyd fesul categori hyfforddiant isod:

| Categori | Nifer y Ceisiadau wedi'u "Cymeradwyo" |
|---|---|
| Categori 1 – Gwella'r Busnes | 102 |
| Categori 2 – Technegol | 181 |
| Categori 3 – Defnyddio Peiriannau ac Offer | 107 |
| CYFANSWM | 390 |

Yn ystod y cyfnod hwn, derbyniwyd **432** cais am hyfforddiant. O'r rhain, cafodd 13 eu diddymu a 29 eu gwrthod. Cafodd 7 eu gwrthod oherwydd nad oedd yr ymgeisydd wedi cwblhau'r cwrs e-ddysgu Iechyd a Diogelwch ar-lein (sy'n hanfodol pan yn ymgeisio am gyrsiau yng Nghategori 3 Defnyddio Peiriannau ac Offer).

Y cyrsiau a dderbyniodd y mwyafrif o geisiadau yn ystod y ffenestr hon oedd:

**Categori 1:**
- Cofnodi Ariannol a TAW
- Cynllunio a Datblygu Busnes
- Marchnata eich Busnes

**Categori 2:**
- Defnyddio Dip Defaid yn Ddiogel


**Categori 3:**
- Tryc Codi Telesgopig ar gyfer Tir Garw

### Ystadegau Ymgeisio

Derbyniwyd cyfanswm o **271** o hawliadau ar gyfer hyfforddiant yn ystod y cyfnod hwn. Y cyrsiau mwyaf poblogaidd oedd:

| Teitl y Cwrs | Nifer o Hawliadau |
|---|---|
| Cofnodi Ariannol a TAW | 36 |
| Marchnata eich Busnes | 23 |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1 a PA2) | 21 |
| Cyrsiau eraill | 191 |
| CYFANSWM | 271 |

Mae'r dadansoddiad a roddir yn y graff isod yn dangos nifer yr hawliadau fesul rhyw a chategori hyfforddiant.




### CDP ■

Ers dechrau'r rhaglen mae cyfanswm o **4383** CLEIENT WEDI CWBLHAU CYNLLUN DATBLYGU PERSONOL.

Crëwyd **296** CDP NEWYDD YN YSTOD Y CYFNOD HWN

### E-ddysgu

Mae cyfanswm o **74** cwrs e-ddysgu bellach ar gael ar wefan BOSS a chafodd **414** cwrs eu cwblhau yn ystod y cyfnod hwn. Ar wahân i Iechyd a Diogelwch, y cyrsiau mwyaf poblogaidd oedd:

| Teitl y Cwrs | Nifer y Cyrsiau a Gwblhawyd |
|---|---|
| e-ddysgu: Afiechyd Johne's mewn Defaid | 18 |
| e-ddysgu: Cloffni mewn Defaid | 15 |
| e-ddysgu: Ŵyna Sylfaenol | 13 |
| e-ddysgu: Goroesiad Perchyll – Maeth yr Hwch | 12 |
| Cyrsiau e-ddysgu eraill | 219 |
| Total | 414 |

### Agrisgôp ■

**52** GRŴP GWEITHREDOL gyda **445** AELOD yn mynychu cyfanswm o **103** CYFARFOD

Pynciau trafod:

- CADW GWENYN I DDECHREUWYR
- O'R FFERM I'R FFORC
- DŴR GLÂN
- HYFFORDDIANT Y CYFRYNGAU
- CANLYNIADAU SAMPLU SILWAIR

### Astudiaeth Achos

**O'r Fferm i'r Fforc**

Agrisgôp yn creu profiadau newydd o fewn y sector amaethyddol ar gyfer ffermwyr y dyfodol yn y Bala. Mae'r grŵp wedi canolbwyntio ar y broses o fynd ag ŵyn o'r fferm i'r fforc yn cynnwys nifer o gyfleoedd cyffrous megis gweithdy cigyddiaeth a chael cyngor gan arbenigwyr yn y maes.




Cliciwch yma i ddarllen gweddill y stori.

## Academi Amaeth

Cafwyd **61** cais ar gyfer yr Academi Amaeth 2019.


- Sir Gâr = 10
- Powys = 24
- Ceredigion = 8
- Gwynedd = 4
- Sir Benfro = 4
- Abertawe = 3
- Conwy = 2
- Sir Ddinbych = 2
- Wrecsam = 2
- Ynys Môn = 1
- Pen-y-bont ar Ogwr = 1




## Mentora

**312** MENTAI WEDI CAEL EU MENTORA

**84** MENTAI NEWYDD



**111%** O DARGED Y RHAGLEN WEDI'I GYFLAWNI

### Mentora Olyniaeth

O ganlyniad i ymgyrch 'Dechreuwch y Sgwrs' Cyswllt Ffermio, rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer o geisiadau am fentora olyniaeth.

Mae **36** cais wedi'u cyflwyno hyd yma; **25** yn ystod y cyfnod hwn yn unig.

Mae olyniaeth yn chwarae rhan fawr mewn nifer o fusnesau fferm a gall fod yn bwnc cymleth a sensitif i'w drafod, a all egluro pam fod unigolion wedi chwilio am arweiniad a chefnogaeth trwy'r rhaglen fentora.

Awgrymiadau da gan ein mentor olyniaeth Sian Bushell:

- Siaradwch am olyniaeth yn aml ac yn agored gyda'ch teulu fel nad yw'n dod yn bwnc tabŵ. Cofiwch gynnwys yr holl aelodau o'r teulu sy'n gysylltiedig â'r buses, yn cynnwys teulu yng nghyfraith.
- Lluniwch gynllun priodol ar gyfer eich ymddeoliad. Beth mae ymddeol yn meddwl i chi? Penderfynwch ar ddyddiad o ran pryd y byddwch yn cymryd cam yn ôl o'r cyfrifoldebau o redeg y busnes.
- Os oes aelod ifanc o'r teulu yn dychwelyd i'r busnes teuluol, lluniwch gynllun integreiddio priodol. Dylai'r cynllun gynnwys lle y byddant yn byw, pa oriau y byddant yn gweithio, cyflog, cyfrifoldebau a sut i'w cynnwys wrth wneud penderfyniadau o fewn y busnes.

Adborth gan mentai:

*"Mae ymweliad Sian wedi bod yn ddefnyddiol dros ben o ran ein helpu i reoli amser yn well a rhoi'r hyder i ni i gael gwared rhai cyfrifoldebau, sydd wedi arwain at fwy amser i gynllunio a threulio amser gyda'r teulu."*

*"Yn bwysicaf oll, mae'r profiad hwn wedi ein helpu i adnabod yr hyn yr ydym eisiau yn nes ymlaen mewn bywyd. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn ein helpu i weithredu cynllun olyniaeth cadarn."*

## Rhai o uchafbwyntiau ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac ar lein:

Facebook 30/01/2019

Dyma Fflur Roberts, cyn-aelod o'r Academi Amaeth yn adrodd ei hanesion a gwerth Rhaglen yr Ifanc iddi hi. Os ydych rhwng 16-19, efallai hoffech chi roi cynnig ar ymgeisio i'r rhaglen fendigedig yma? Os felly, cofiwch fod y dyddiad cau ar y 31ain o Fawrth! Dilynwch y linc yma am fwy o wybodaeth neu i lawr lwytho ffurflen gais. Pob lwc!



Cliciwch yma i wylio fideo Fflur.

**Pobl â Gyrhaeddwyd: 9,689**
**Ymgysylltiadau: 2,534**
**Sylwadau, hoffiadau a rhannu: 154**

Farming Connect Website 20/12/2018

Ffermwr a chigydd arbennig... o'r fferm i'r fforc! Mae'r ffermwr ifanc yma, sy'n bedwaredd genhedlaeth o'r teulu, yn benderfynol o gynnal y traddodiad teuluol o fagu stoc arbennig o dda a chynnig cynnyrch eithriadol.

Dywed Shaun fod cael ei ddewis fel ymgeisydd ar gyfer rhaglen gyntaf un Academi Amaeth Cyswllt Ffermio yn 2012 wedi'i annog i anelu'n uchel mewn bywyd! "Gallai Academi Amaeth Cyswllt Ffermio, trwy ei raglen hyfforddi, mentora, cefnogi ac arwain ac efallai'n bwysicach na dim, trwy ei gyfleoedd rhwydweithio, roi cyfle i chi newid eich bywyd, felly fy nghyngor yw, ymgeisiwch nawr!"




Cliciwch yma i ddarllen mwy am siwrnai Shaun.

**Ymweliadau tudalen: 603**